O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 111 (Cy.17)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Sain Ffagan i Drosbont Drope Road, Caerdydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*16 Ionawr 2012*
Yn dod i rym	*23 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Sain Ffagan i Drosbont Drope Road, Caerdydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 23 Ionawr 2012 ac yn dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4232 rhwng Sain Ffagan a throsbont

Drope Road yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, , ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 16 Ionawr 2012

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Terfyn Cyflymder 50 mya

Darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1600 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt trosbont Drope Road i bwynt 450 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y drosbront honno.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya

Darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt trosbont Drope Road i bwynt 230 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y drosbront honno.

ATODLEN 3
Gwahardd Cerbydau

Darn o gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 315 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt trosbont Drope Road i bwynt 105 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y drosbront honno.